Stiwardiaid mewn Dirwasgfa



Saith Ciplun Ysbrydol

1. Cyfrwch eich Bendithion

"Am hynny 'rwy'n dweud wrthych, peidiwch â phryderu am eich einioes, beth i'w fwyta na'i yfed, nac am eich corff, beth i'w wisgo; onid oes rhagor i einioes dyn na lluniaeth a rhagor i'w gorff na dillad? Edrychwch ar adar yr awyr, nid ydynt yn hau nac yn medi nac yn casglu i ysguboriau, ac eto y mae eich Tad nefol yn eu bwydo. Onid ydych chwi yn llawer mwy gwerthfawr na hwy? Prun ohonoch a all ychwanegu un funud at ei oes trwy bryderu?" *Matthew 6 a25-27*

Trwy gydol ein bywyd bob dydd, fe'n hanogir i fod eisiau mwy; mae'n cymdeithas yn rhoi pwyslais mawr ar eiddo materol. Mae'n awgrymu fod y car a yrrwn, brand ein dillad, y ffôn symudol a ddefnyddiwn yn ein diffinio mewn rhyw fodd. Mae'n rhwydd i ni gael ein tynnu i mewn i gredu hyn, gan golli golwg o'n gwir werthoedd, fel plentyn unigryw a gerir gan Dduw.

Mae canolbwyntio ar yr hyn rydym eisiau, yn hytrach na'r hyn sydd gennym a chanolbwyntio ar y materol yn hytrach na'r ffyrdd eraill rydym yn cael ein bendithio yn ein bywydau yn rhwydd. Hyd yn oed os yw bywyd yn ymddangos yn galed, mae gennym bethau y gallwn fod yn ddiolchgar amdanynt.

Gweithred : Treuliwch ychydig amser yn ysgrifennu'r hyn sydd gennych i fod yn ddiolchgar amdanynt.
Treuliwch ychydig amser yn diolch i Dduw am ei fendithion.

Munud i Fyfyrio : Yn ogystal â bod yn ddiolchgar, mae arnom angen cydnabod ein pryderon. A oes gennych bryderon ariannol? Rhannwch y rhain gyda'r Arglwydd mewn gweddi.

Mae'n bosibl bydd y weddi ganlynol o gymorth :

Arglwydd Dduw, 'rydym yn byw mewn dyddiau cythryblus:
Ar hyd a lled y byd, mae prisiau'n codi, dyledion yn cynyddu, banciau'n methu, swyddi'n diflannu a diogelwch brau dan fygythiad.
Dduw Annwyl, tyrd i gwrdd â ni yn ein hofnau a chlyw ein gweddi:
Bydda'n nerthol ymysg y tywod symudol,
a goleuni mewn tywyllwch;
helpa ni dderbyn dy rodd o heddwch,
a gosoda ein calonnau lle ceir gwir lawenydd,
yn enw Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

2. Cyfrwch eich Arian

"Oherwydd os bydd un ohonoch chwi yn dymuno adeiladu tŵr, oni fydd yn gyntaf yn eistedd i lawr i gyfrif y gost, er mwyn gweld a oes ganddo ddigon i gwblhau'r gwaith? Onid e, fe all ddigwydd iddo osod y sylfaen ac wedyn fethu gorffen nes bod pawb sy'n gwylio yn mynd ati i'w watwar gan ddweud, 'Dyma ddyn a ddechreuodd adeiladu ac a fethodd orffen." *Luc 14 a28-30*

Nid yw'r rhan fwyaf ohonom yn mwynhau cyllido. Gall ysgrifennu sut rydym yn gwario ein harian fod yn boenus, yn enwedig os oes llai yn dod i mewn na'r hyn sy'n mynd allan. Ond nid yw cyllido yn arfer o geisio gwneud i'n harian bara tan ddiwedd y mis yn unig, mae'n arfer ysbrydol hefyd, yn datgelu'n union beth yw ein blaenoriaethau. Dywedodd Billy Graham sawl tro, "Rhowch bum munud gyda llyfr sieciau rhywun a gallaf ddweud wrthych lle mae eu calon." Mae creu cyllideb yn ffordd dda o reoli adnoddau ariannol mae Duw wedi'i roi i ni, hyd yn oed os ydym yn teimlo'r angen neu beidio. Mae'n ein galluogi i reoli a gwneud penderfyniadau lle byddwn yn dyrannu arian. Heb gyllideb, mae'n bosibl byddwn yn darganfod bod arian yn cael ei golli mewn rhai mannau o'n gwariant.

Gweithred : Adolygwch eich incwm a gwariant misol. Mae'n bosibl byddai'n ddefnyddiol i chi ddefnyddio templed www.themoneyrevolution.net

Munud i Fyfyrio : Beth mae'r ymarferiad hwn yn ei ddangos am eich blaenoriaethau? Beth efallai y byddwch yn ei newid o ran sut byddwch yn dyrannu eich arian?

3. Dysgu Bodloni

A'r ffaith yw, na ddaethom â dim i'r byd, a hynny am yr un rheswm na allwn fynd â dim allan ohono chwaith. Os oes gennym fwyd a dillad, gadewch inni fodloni ar hynny. Y mae'r rhai sydd am fod yn gyfoethog yn syrthio i demtasiynau a maglau, a llu o chwantau direswm a niweidiol, sy'n hyrddio dynion i lawr i ddistryw a cholledigaeth. Oherwydd gwraidd pob math o ddrwg yw cariad at arian ac wrth geisio cael gafael ynddo crwydrodd rhai oddi wrth y ffydd, a thrywanu eu calonnau ag arteithiau lawer. *1 Timotheus 6 a7-10*

Mae dysgu bod yn fodlon yn un o'r arferion mwyaf arwyddocaol y gallwn ei sicrhau. Creodd nifer fawr o bobl ddyledion wrth ddilyn eu breuddwydion, i ddarganfod fod yr hyn maent wedi'i brynu ddiweddaraf yn bodloni am gyfnod byr yn unig. Mae bodlonrwydd yn lleihau ein hawydd i wario, a'n helpu i greu bwlch rhwng ein hincwm a'n gwariant. Daw hyn â chyfle; i gynilo, cyfrannu neu brynu rhywbeth arbennig. Ar y llaw arall, os yw ein gwariant yn rheolaidd yn fwy na'n hincwm, yna'r canlyniad anochel yw dyled.

Gweithred : Edrychwch yn ôl ar eich cyllideb hefyd adolygwch eich dyledion a'ch cynilion. Os oes dyledion arwyddocaol gennych, fe'ch anogir i weithredu cyn gynted â phosibl, gall taliadau llog waethygu'r broblem yn gyflym. Gellir cael cyngor am ddim gan Wasanaeth Cwnsela Credyd y Defnyddwyr, elusen dyledion blaenllaw Prydain, ar 0800 138 1111 neu ewch i www.cccs.co.uk Mae'n bosibl bydd yr adnodd am ddyled a baratowyd gan Eglwys Lloegr o help: www.cofe.anglican.org/debt

Munud i Fyfyrio : Ym mha rannau o'ch bywyd byddwch yn teimlo'n fwyaf bodlon? Lle mae'r temtasiynau?

Mae'n bosibl bydd y weddi ganlynol o gymorth :

Ein Harglwydd Iesu Grist, dysgaist i ni am adeiladu trysorau yn y nefoedd yn hytrach nag ar y ddaear, dysga ni i fod yn fodlon pan ddiwellir ein hanghenion yn hytrach na'r hyn rydym eisiau, a dyro ddoethineb i'n galluogi i fod yn stiwardiaid ffyddlon. Amen

4. Ffordd Symlach o Fyw

Galwodd Iesu y Deuddeg ynghyd a rhoddodd iddynt nerth ac awdurdod i fwrw allan gythreuliaid o bob math ac i wella clefydau. Yna anfonodd hwy allan i gyhoeddi teyrnas Dduw ac i iachau'r cleifion. Meddai wrthynt, "Peidiwch â chymryd dim ar gyfer y daith, na ffon na chod na bara nac arian, na bod â dwy got yr un. I ba dŷ bynnag yr ewch, arhoswch yno nes y byddwch yn ymadael â'r ardal." *Luc 9 a1-4*

Yn ystod cyfnod o ddirwasgiad, mae'n amser da i adolygu ein ffordd o fyw. Mae'r Prydeiniwr cyffredin yn brysurach nag y bu erioed o'r blaen, gweithio oriau hirach, teithio'n bellach ac yn berchen ar fwy o nwyddau nag erioed o'r blaen. Mae astudiaethau yn dangos nad ydym o reidrwydd yn fwy hapus nac yn fwy bodlon. Efallai mai nawr yw'r amser gorau i arafu ac ystyried beth sy'n bwysig i ni. 'Gall torri'n ôl deimlo'n negyddol, ond gall unrhyw arddwr ddweud wrthych bod tocio yn weithred hanfodol ar gyfer annog tyfiant iach.

Gweithred : Beth sy'n creu annibendod yn eich bywyd? Edrychwch yn ôl ar eich cyllideb – beth allech chi dorri allan i ryddhau mwy o arian? Beth am eich dyddiadur – beth fyddai'n rhoi mwy o amser i chi wneud y pethau rydych wir am eu gwneud? Ydych chi'n treulio'ch amser a gwario'ch arian ar y pethau sydd wir yn bwysig i chi?

Munud i Fyfyrio : Pam ydych chi'n meddwl fod Iesu wedi cysylltu anfon y disgyblion i ffwrdd gyda byw heb annibendod eiddo?

5. Parhewch i Roi

Cofiwch hyn: a heuo'n brin a fed yn brin, a heuo'n hael a fed yn hael. Rhaid i bawb roi o wirfodd ei galon, nid o anfodd neu o raid, oherwydd rhoddwr llawen y mae Duw'n ei garu. Y mae Duw yn gallu rhoi popeth da i chwi yn helaeth, er mwyn i chwi, ar ben eich digon bob amser ym mhob peth, allu rhoi yn helaeth i bob gwaith da.
2 Corinthiaid 9 a6-8

Mae'r 2008 UK Giving Report[1] yn dangos y rhoddir dros hanner yr arian a gyfrennir at elusennau gan y 2.1 miliwn o roddwyr ymroddedig sy'n rhoi dros £100 y mis. Mae'r ystadegau rhoi gan yr enwadau mawr yn dangos fod y mwyafrif o'r grŵp hwn yn Gristionogion. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i roi yn ystod cwymp, nid yn unig oherwydd bod eglwysi ac elusennau'n dibynnu ar ein rhoddion. Wrth i ni roi, rydym yn ymateb i haelioni Duw, sy'n rhoi'r hyn yr ydym ac sydd gennym i ni oll.

Un fantais o feddwl am roi canran o'n hincwm, yw ei fod yn ein helpu i addasu ein rhoi wrth i'n hincwm fynd i fyny neu i lawr. Pan fydd gennym lai o arian yn dod i mewn, gallwn roi llai, ond gallwn wneud hyn yn wybodus nad yw ein haelioni cymharol wedi newid.

Gweithred : Adolygwch eich rhoi, gan ei osod yng nghyd-destun eich incwm. Mae'n bosibl byddai'n ddefnyddiol i chi ddefnyddio templed www.themoneyrevolution.net

Munud i Fyfyrio : Mae'r darn uchod yn ein herio i roi'n llawen. Un ffordd o gynyddu'r llawenydd a ddaw o roi yw bod yn fwy cysylltiedig â'r achos rydych yn cyfrannu ato; gweddïo drosto, neu efallai weithio'n wirfoddol drosto.

[1] Gellir dod o hyd i UK Giving 2008 yn www.cafonline.org/default.aspx?page=12182

6. Ailgodi Cymunedau Hael

Yr oedd yr holl gredinwyr ynghyd yn dal pob peth yn gyffredin. Byddent yn gwerthu eu heiddo a'u meddiannau, a'u rhannu rhwng pawb yn ôl fel y byddai angen pob un. A chan ddyfalbarhau beunydd yn unfryd yn y deml a thorri bara yn eu tai, yr oeddent yn cydgyfranogi o'r lluniaeth mewn llawenydd a symledd calon, dan foli Duw a chael ewyllys da'r holl bobl. Ac yr oedd yr Arglwydd yn ychwanegu beunydd at y gynulleidfa y rhai oedd yn cael eu hachub.
Actau 2 a44-47

Nodwedd sawl dirwasgiad blaenorol oedd parodrwydd aelodau cymunedau i ddarparu cefnogaeth i'r naill a'r llall. Heddiw mae nifer o gymunedau daearyddol yn llai cryf - gyda phreswylwyr prin yn gwybod enwau eu cymdogion, yn aml yn eu hadnabod wrth y car maen nhw'n ei yrru. Efallai bydd gennym berthynas gryfach gyda'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw neu'n cymdeithasu gyda nhw. Pa bynnag gymuned rydym yn uniaethu â hi, arwydd o'n hymroddiad i'r gymuned hon yw'n parodrwydd i aberthu rhywbeth i gwrdd ag angen eraill yn y gymuned. Daw cyfnodau o ddirwasgiad a phobl anghenus at ei gilydd, a phobl sy'n barod i rannu. Mae eglwysi mewn sefyllfaoedd delfrydol i ddarparu arweiniad lleol, gan arddangos cariad Crist mewn ffyrdd ymarferol.

Gweithred : Treuliwch amser yn myfyrio ynghylch y rhai sy'n byw'n gyfagos, a'r bobl rydych yn gweithio neu'n dod i gysylltiad â nhw. Ym mhle rydych yn gweld yr angen? Beth allwch chi ei wneud i helpu?

Munud i Fyfyrio : Sut allwn ni rannu fel cymunedau? Pa mor realistig yw'r darlun sydd gennym o'r eglwys gynnar yn rhannu gyda'i gilydd?

Mae'n bosibl bydd y weddi ganlynol o gymorth :
O Dduw sy'n Dri yn Un, yn byw yn y gymuned berffaith;
Dyro i ni'r awydd i drawsnewid ein cymunedau, er mwyn i ni allu adlewyrchu dy gariad, gras a haelioni, wrth i ni weinidogaethu i eraill yn dy enw. Amen.

7. Gall cwymp ariannol gynyddu ysbrydoliaeth

Felly, gan eich bod wedi derbyn Crist Iesu, yr Arglwydd, dylech fyw ynddo ef. Cadwch eich gwreiddiau ynddo, gan gael eich adeiladu ynddo, a'ch cadarnhau yn y ffydd fel y'ch dysgwyd, a bod yn ddibrin eich diolch. *Colosiaid 2 a6,7*

Beth mae'n ei olygu i fod wedi'ch gwreiddio yng Nghrist? Dychmygwch blanhigyn tŷ lle mae pob deilen a blodyn yn derbyn maeth angenrheidiol drwy'r system wreiddiau, i fyny bob coesyn ac allan i bob pen eithaf y planhigyn. Fel hyn hefyd gall bob rhan o'n bywydau dderbyn maeth gan Grist; gan ddod a heddwch a thawelwch o bryderon, y doethineb i ymdrin â phwysau cyllidol ac eraill a chysur yn ystod cyfnod o feichiau, galar a thristwch.

Yna, ychwanegodd Paul, gydag ymadrodd oedd bron "gyda llaw" y dylem fod yn "gorlifo gyda diolchgarwch". Rydym yn dychwelyd at y man y dechreuwyd y myfyrdodau; gan frwydro yn erbyn diwylliant nad yw'n annog diolchgarwch, yn wir, sy'n gwario biliynau o bunnoedd y flwyddyn i annog anfodlonrwydd. Mae cyfnodau o ddirwasgiad yn anodd, mae llawer mewn poen a chaledi ariannol; ond gall fod ffordd o ddod allan yn gryfach, fel unigolion ac fel cymdeithas.

Munud i Fyfyrio : Sut gall amserau anodd ddod a chi yn agosach at Dduw? Treuliwch amser yn gweddïo - trowch eich meddwl at Dduw. Ym mha leoedd o'ch bywyd y mae angen ei faeth arnoch?

Gweithred Olaf : Edrychwch yn ôl dros y saith myfyrdod. Gwnewch nodyn o'r hyn rydych wedi'i benderfynu ei wneud yn wahanol a'i gadw'n ddiogel. Gwnewch nodyn yn eich dyddiadur i ddod yn ôl at hyn mewn mis.

Cynhyrchwyd gan y National Stewardship Office Eglwys Lloegr.
Hawlfraint © 2009, The Archbishops' Council.

2009, The Archbishops' Council © BFBS 1988.
Defnyddiwyd gyda chaniatâd Cymdeithas y Beibl, Stonehill Green, Westlea, Swindon SN5 7DG
Ceidw pob hawl.